


OneNote: one place for all of your notes



 [Watch the 2 minute video](#)

1. Take notes anywhere on the page

Write your name here

Jaime

2. Get organized


You start with "My Notebook" - everything lives in here




Add **sections** for activities like:




Add **pages** inside of each section:






3. For more tips, check out 30 second videos




4. Create your first page

You're in the Quick Notes section - use it for random notes




OneNote Basics




Remember everything

- Add Tags to any notes
- Make checklists and to-do lists
- Create your own custom tags




Collaborate with others

- Keep your notebooks on OneDrive
- Share with friends and family
- Anyone can edit in a browser



Keep everything in sync

- People can edit pages at the same time
- Real-Time Sync on the same page
- Everything stored in the cloud
- Accessible from any device



Clip from the web

- Quickly clip anything on your screen
- Take screenshots of products online
- Save important news articles




Sunday retreat

	Attending?	Overnight?	Vegetarian?
Chris	Yes	Yes	No
Molly	No	No	No
Peter	Yes	No	Yes
Samuel	Yes	Yes	Yes
Stacy	Yes	No	No

A
Z ↓


Organize with tables

- Type, then press TAB to create a table
- Quickly sort and shade tables
- Convert tables to Excel spreadsheets




Write notes on slides

- Send PowerPoint or Word docs to OneNote
- Annotate with a stylus on your tablet
- Highlight and finger-paint



Integrate with Outlook

- Take notes on Outlook or Lync meetings
- Insert meeting details
- Add Outlook tasks from OneNote




Quarter 1 revenue

	Sales	Revenue	Expenses
Scott	4	5	3
James	2	1	4

Add Excel spreadsheets



- Track finances, budgets, & more
- Preview updates on the page





Brainstorm without clutter

- Hide everything but the essentials
- Extra space to focus on your notes



Take quick notes

- Quickly jot down thoughts and ideas
- They go into your Quick Notes section



Arwain y Dysgu: beth, sut a pham ydw in addysgu?

06 January 2020 20:35

Y nod yw gwerthuso beth, sut a pham ydw i'n addysgu gan adfyfyrio ar fy mhrofiad hyd at hyn er mwyn parhau fy natblygiad i wneud y gorau i fod yn addysgwyr effeithiol. Er bod Fframwaith y cyfnod Sylfaen mewn gweithrediad mewn ysgolion ar hyn o bryd mae cwricwlwm newydd i Gymru ar y ffordd felly i ddatblygu ar gyfer y dyfodol agos bydd gysylltiad cryf gan y gwerthusiad efo'r Cwricwlwm i Gymru ar ôl Adroddiad dyfodol Llwyddiannus Donaldson (2015). Allan o'r 12 egwyddorion bydd ffocws ar:

1. Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.
2. Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.
3. Mae addysgu a dysgu da'n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Beth?

06 January 2020 21:02

Yn fy lleoliad oedd llai na hanner cant o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol gyfan ac felly mae'r broses o gynllunio gwersi yn faich o waith oherwydd bod angen sicrhau cysylltiad ystyrlon i'r cwricwlwm efo pob agwedd o'r cynllun ond bod modd addasu ar gyfer pob oedran a lefel o ddatblygiad o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Mae disgwyliadau a dyletswyddau addysgwyr yn mynd yn bellach na'r cwricwlwm gan fod angen i blant cael gwerthoedd er mwyn gwneud penderfyniadau cywir dros eu hun a gallu ennyn sgiliau megis datrys problemau. Yn ôl deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru, 2015) mae disgwyl i blant cael cyfleoedd i ddysgu sut i fod yn llewyrchus, gydnerth, iachus cyfartal a hyderus er mwyn cynnal cymunedau cydlynnes a datblygu diwylliant bywiog efo unigolion sy'n cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd ac felly'n teimlo'n gyfrifol am broblemau sy'n angysylltiedig iddyn nhw megis y fyd-eang. Darganfod yr adroddiad lles ac iechyd 2017/18 (2019) bod plant yn teimlo nad yw oedolion yn gwrando neu gymryd sylw o farn bersonol y disgyblion a bod mwy o adborth yn cael eu rhoi dros gyfryngau cymdeithasol ac felly mae plant yn cael dylanwad negyddol yn hytrach nag adborth ynghyn a'u syniadau a theimladau. Yn ôl Bowman, Donovan a Burns (2001) mae hyn yn ffactor pam mae asesu ar gyfer dysgu parhaus yn rôl bwysig i ddigwydd yn rhan naturiol o sesiynau addysgu gan fod yr addysgwyr yn gallu adnabod os mae rhywbeth allan o'r arfer a datblygiad unigolyn. Credaf Sir Powys (2019) bod pum ffordd o ddiogelu lles ond mae angen adnabod yr arwyddion cyn gallu cydweithio er mwyn gwella lles plant megis cysylltu'r teulu efo addysg yr unigolyn a sicrhau bod y plant gallu bod yn fywiog ynghyn ac addysg. Dal ati i ddysgu am hunan-fry personol, sylwgar, bod yn greadigol a rhoi i eraill er mwyn bod yn egwyddorion cydnabyddus a hyderus.

Yn ôl Siraj a Kingston (2014) i sicrhau dysgu pwerus mae'n bwysig cysylltu'r cwricwlwm efo amrywiaeth o strategaethau addysgu efo ymateb o ddysgwyr. Er bod plant dal yn cael eu haddysgu yn ôl fframwaith y Cyfnod Sylfaen mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn cael eu harbrofi trwy ysgolion arloesol er mwyn casglu syniadau i fod yn barod i'r dyfodol llwyddiannus er mwyn bod yn barod i newidiadau sydd angen addasu tuag at. Gan fod y byd yn parhau i ddatblygu er mwyn addasu tuag at swyddi'r dyfodol mae angen newid cynnwys mae ysgolion yn addysgu.

Erbyn 2020 yn ôl yr Adroddiad Donaldson (2015) bydd dyletswydd orfodol i gynnal gwersi tu allan sy'n sicrhau amrywiaeth eang o brofiadau uniongyrchol tuag at addysgu dilys. Bydd y cynlluniau gwersi yn sicrhau bod y broses o ddysgu yn ddiddorol i'r plant gan fod disgwyl iddyn nhw gael eu haddysgu yn dilyn eu diddordebau personol er mwyn sicrhau addysg uniongyrchol er mwyn galluogi pob unigolyn i ddatblygu i'w photensial llawn ac i fod yn ddigon hyderus i geisio bod yn barod i swyddi'r dyfodol. Megis y gwahaniaeth rhwng y Cyfnod Sylfaen presennol ar Gwricwlwm newydd ar gyfer Cymru bydd yn y dyfodol yw bod athrawon yn disgwyl rhannu gwybodaeth efo plant ar gyfer dysgu ond bydd cyfrifoldebau i roi ymrwymiad tuag at eu haddysg a chynnaladwyedd i gyrraedd eu potensial llawn trwy gael ymrwymiad cryf tuag at weithgareddau sy'n cael eu cynllunio ar eu cyfer.

Pwyslais ar gyfuno addysg grefyddol, daearyddiaeth a hanes at ei gilydd yn drawscwricwlaidd. Golygwyd hyn bod astudiaethau busnes a chymdeithasol yn hanfodol o dan y maes dysgu hefyd er mwyn addysgu sgiliau bywyd. O ganlyniad bydd pob unigolyn yn ddeall a datblygu eu hunaniaeth a phersonoliaeth yn gynharach yn ôl Loxley et al (2010).

Credaf Saxton (2012) wrth roi dewis o ble mae gweithgareddau yn cael eu darparu yn ysgol mae'n arddangos bod llais y plant yn cael eu gwerthfawrogi a chymryd o ddifri a hefyd yn sicrhau bod pob gwers yn unigryw wrth gynnwys amrywiaeth o ddeilliannau dysgu. Cytunwyd Vecchi (2010) gan ychwanegu bod arddull Reggio Emilia o addysgu yn atgyfnerthu hyn ac yn rhoi pwyslais cyfartal ar ddilyn llais y plentyn, gwneud y gorau efo gwagle sydd ar gael efo lleoliad a hybu iaith a rhifedd cyfoethog efo pob gwers. Dylai plant cael eu cwestiynu yn agored ac yn naturiol fel rhan o addysgu er mwyn datblygu'r plant i fod yn unigolion, mentrus a hyderus. Wrth gwestiynu mae hefyd yn rhoi llai o bwyslais ar brofion gan fod datblygiad yr unigolion yn amlwg i'r Athro o ganlyniad i asesu ar gyfer dysgu digwydd yn barhaus yn ystod addysg.

Gan fod disgwyl i rifedd cael eu haddysgu'n trawcwricwlaidd mae angen cynllunio fel bod profiadau unigol yn cael eu cysylltu i mewn efo gwersi yn naturiol ond efo pwrpas er mwyn creu cysylltiad personol i bob unigolyn os yn bosib o fewn y dosbarth er mwyn gwella dealltwriaeth a hoffter plant tuag at ddysgu'n fathemategol yn ôl Taylor a Harris (2014). Bydd plant yn cael eu haddysgu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol fel eu bod yn datblygu i fod yn unigolion hyderus sy'n barod i fod yn llwyddiannus o fewn eu diddordebau ac yn ddeall sut i fynd ati i ddelio efo problemau sy'n codi'n ddyddiol heb gael effaith negyddol ar eu lles ac iechyd meddwl. Felly ni fydd gymaint o bwyslais ar sut mae cynnwys yn cael eu haddysgu rhagor ond bydd pwyslais dwys ar bwrpas a werth pob gwers i'r unigolion sydd o fewn y dosbarth.

Yn ôl Clarke, Dickinson a Westbrook (2010) er mwyn dysgu iaith yn effeithiol mae angen dysgu amrywiaeth eang o strategaethau cwestiynu er mwyn dyfnhau dealltwriaeth plant o bwnc yn naturiol. Cytunwyd Donaldson (2015) gan ddweud bod dyletswydd gan addysgwyr i ddefnyddio gwahanol ddulliau o gwestiynu mewn pob sesiwn i sicrhau bod dysgu yn digwydd gan ddefnyddio fel arddull o asesu ar gyfer dysgu. Credaf Larson a Marsh (2015) yr unig ffordd i wella safonau ysgolion yn effeithiol yw ysgogi dysgu trwy amrywiaeth o strategaethau cwestiynu er mwyn cyfoethogi iaith, sicrhau dealltwriaeth, a gwneud cysylltiadau personol efo addysgu.

Sut?

06 January 2020 21:02

Mae'r ddadl o beth yw arfer da yn addysgu wedi bodoli o hyd a bydd byth ateb pendant oherwydd bod pawb yn dysgu mewn gwahanol ffurf ac felly bydd Athrawes lwyddiannus yn addasu'r ffordd o addysgu er mwyn bod yn addas i'r unigolion o fewn y dosbarth ar y pryd (Taylor et al,2015). O ganlyniad i hyn credaf Whitehead (2019) yr hud i addysgu yn effeithiol yw wrth ddilyn llais y plant o bob oedran gan adlewyrchu ar lwyddiant y ddysgu wrth adfyfrio ar bob profiad a gwers rydych yn darparu gan sicrhau bod gwerthoedd yn rhan o'r addysgu yn ychwanegol i gynnwys y fframwaith. Os nad ydy Athrawon yn gofyn yn naturiol sut gallant nhw wedi gwella profiad dysgu i'r unigolion rydyn nhw'n addysgu ac adnabod sut maen nhw'n bersonol wedi gwella fel addysgwyr yn ddyddiol yna ni fydd y plant yn dysgu i'w photensial llawn (Moss a Dahlbery,2019).Cytunwyd adroddiad Mckinsey (2007) gan gredaf yr unig ddull i wella canlyniadau unigolyn yn ôl y deilliannau dysgu yw addasu'r cyfarwyddiadau o sut mae'r Athroniaeth yn cael eu darparu gan fod cynnwys addysg wedi cael eu penderfynu gan weithwyr professionol gwybodus. Mae ansawdd y system addysg yn dibynnu ar ansawdd y ddarpariaeth o addysg sy'n cael eu rhoi gan yr addysgwyr.

Yn ychwanegol i hyn ni fydd cynnwys addysg yn y broses o gael eu haddasu er mwyn dilyn y cwricwlwm newydd i Gymru erbyn 2022 os oedd yr Adroddiad Donaldson am ddyfodol llwyddiannus (2008) heb ddod i ganlyniad bod newidiadau yn angenrheidiol er mwyn gwella fel gwlad. Cytunwyd Blythe (2017) bod amlwg angen addasu'r hyn mae plant yn cael eu haddysgu gan nid yw'r cwricwlwm wedi datblygu er bod ffactorau pob dydd yn addasu a swyddi a gyrfeidd potensial wedi newid i beth oedd ar gael pan gafodd y cwricwlwm presennol eu creu.

Er hyn credaf Moyles (2010) bod plant yn ddysgu wrth proffiadau ac yn cofio sut oedd addysg yn wneud iddyn nhw teimlo ac felly y ffordd gorau o sicrhau bod pawb yn cyrraedd eu llawn potential yw i sicrhau cysondeb a trin pawb fel unigolyn ac yn gyfartal er mwyn sicrhau bod pob plenty gallu cael addysg hunangyfeiriedig lle mae'n bosib er mwy dilyn diddordeb personol yr unigolyn i sicrhau bod yr addysg yn addas iddyn nhw.

Gan fod angen addysgu plant cymaint o gynnwys o fewn y cyfnod maen nhw yn eich gofal ar gyfer addysgu mae'n bwysig bod cynlluniau yn cael eu gwneud yn ofalus er mwyn cynnwys sesiynau addysgu cyfoethog i'r plant. O ganlyniad i hyn mae'r Fframwaith blynnyddoedd Cynnar (2008) yn rhoi pwyslais bod angen i addysgwyr bod yn unigolion adfyfyriol er mwyn cynnal a gwella eu perfformiad fel Athro ac i ddatblygu efo'r addasiadau sy'n parhau i ddigwydd o fewn y byd addysg i sicrhau bod y plant yn derbyn y cyfleoedd gorau ar gyfer cyrraedd eu potensial llawn yn eu datblygiad personol.

Pam?

06 January 2020 21:03

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2019) mae pob unigolyn sy'n ddewis addysgu wedi ennyn diddordeb o brofiadau personol ac yna wedi cael eu hysbrydoli gan rywun. Credaf Donaldson (2008) wrth gysylltu diddordeb efo ysbrydoliaeth mae'n wneud yn bosib dilyn y llwybr o yrfa. Ychwanegwyd Coe et al (2014) eu bod yn angenrheidiol cael rheswm pendant am fod yn Athro neu Athrawes gan eu bod yn rôl gymhleth ac felly mae angen unigolyn sy'n barod i ymdopi efo heriau dyddiol.

Bydd heriau ymgyrch a phob agwedd rydych am fod yn Athrawes effeithiol ond byddwch yn Athrawes lwyddiannus os ydych yn hyblyg ac yn ddealladwy o hyn ac felly'n addasu yn hytrach na rhoi'r ffidl yn y to (Estyn,2019). Enghreifftiau o heriau dyddiol i'ch personoliaeth unigryw o addysgu gall bod diffyg adnoddau i fod yn greadigol, diffyg sylw i'r dosbarth cyfan oherwydd eich bod yn rhy garedig i eraill, diffyg egni o ganlyniad i orweithio gan eich bod yn feddylgar, anodd rhannu diddordebau efo cydweithwyr os ydych yn ddychmygol a bod diffyg amser gweinyddwch i wneud gwaith gan eich bod yn rhoi lles y plant cyn addysg. Yn ôl Impact Wales (2019) bydd Athrawes lwyddiannus yn cydbwyso'r heriau yma gan eu bod yn rhan o hunaniaeth felly'n ddeall eu bod yn heriau ar gyfer gwella ymarfer wrth addasu ar ôl gwerthuso ac adfyfyrio ar eu hymarfer yn wythnosol. Cytunwyd Whitehead (2019) gan ychwanegu heb roi amser i hunan-adfyfyrio ar y profiadau rydych yn rhan ohono yna nid oes werth arnynt oherwydd nid ydych yn rhoi cyfle i wella eich hun fel unigolyn trwy ddysgu'r gwersi mae profiadau yn rhoi iddych. Bydd pob addysgwyr effeithiol yn datblygu deilliannau dysgu pob unigolyn o fewn eu gofal yn ddyddiol heb gynllunio yn sicr ar eu cyfer ar ôl datblygu perthynas positif ond proffesiynol efo'r plant gan fod athrawes lwyddiannus yn adnabod gwendidau a chryfderau pob unigolyn yn naturiol (Coe et al,2014).

Fel Athrawes mae angen cymryd cyfrifoldeb dros ddyfodol y plant rydych yn addysgu gan fod y profiadau sy'n cael eu rhoi yn ystod y blynyddoedd cynnar yn cael dylanwad sylweddol ar eu hagwedd, gwerthoedd, hunan fry a diddordebau yn y dyfodol sydd fel arfer yn cael effaith ar lwyddiant mewn gyrfa ac ati (Dolya,2010). Os nad yw addysgwyr yn adlewyrchu ar ymarfer yn gyson yna mae'n cael dylanwad ar ansawdd o addysg mae'r plant yn derbyn gan fod angen cymryd dyletswydd dros yr effaith mae ein hymarfer yn cael arf yr unigolion sydd yn ofal athrawon er mwyn dysgu (Davydov,1996). Yn ôl Hattie (2009,p22) yr effaith mwyaf ar blant yw pryd mae nid yn unig pob unigolyn yn cael sylw cyfartal ond pryd mae'r disgyblion ar Athrawon yn cael eu trin yn hafal ac yn gyfartal fel bod addysgu'n cael eu gwneud ar y cyd. Yn ol Arievitch a Stetsenko (2002) mae plant ond eisiau athro i fod yn wybodus ac cael digon o ddiddordeb er mwyn ceisio adnabod enwau pob unigolyn o fewn y ddosbarth yn fuan ar ol i'r tymor dechrau er mwyn dangos bod diddordeb yn unigolrwydd pob plentyn ac eu fod mynd i cael eu trin efo parch.

Yn ôl Ko a Sammons (2013) mae'r amrywiaeth eang o brofiadau sy'n cael eu harbrofi wrth addysgu ac astudio i ddysgu yn dylanwadu ar y dull rydych yn dilyn i ddarparu addysg i blant. Bydd pob Athro efo pedagogaeth personol iddyn nhw sy'n unigryw gan fod dylanwad ar gymysgedd o brofiadau mae unigolyn yn ennyn, ymchwil ynghyn ag amrywiaeth eang o pedagogau a gwerthoedd personol. Er hyn mae angen parchu bod pawb yn addysgu trwy arddull unigryw felly mae angen cydweithio efo hyn ar gyfer lles y plant i sicrhau bod naws o heddwch o fewn yr ysgol. Felly er bod angen asesu'r plant ar gyfer dysgu mae'r un mor bwysig i asesu lefel yr addysgu hefyd er mwyn sicrhau bod cyfle gan y plant i ddysgu i'w photensial llawn ac i ddatblygu ar y cyflymder gorau iddyn nhw (Sternberg a Krauss,2014).

Credaf Siraj-Blatchford et al (2013) er bod plant efo lles ac iechyd meddwl iach gallu troi profiadau negyddol yn bositif trwy ddefnyddio i ddysgu gwerthoedd a gwersi oddi wrthynt mae dyletswydd gan addysgwyr i geisio lleihau hyn i blant. Wrth addysgu yn drawsgwricwlaidd mae'n wneud y broses o ddysgu yn haws i blant ac o ganlyniad yn lleihau'r tebygolrwydd o'r plant cael profiadau gwael neu negyddol o ddysgu oherwydd casineb tuag at bwnc (Barnes,2018). Nod fel addysgwyr yw rhoi amrywiaeth eang o brofion positif sy'n cael effaith positif ar blant er mwyn iddyn nhw dyfu i fod yn unigolion hyderus sy'n adnabod eu gwerth oherwydd yr hyn ddysgwyd o fewn ysgol o ganlyniad i ennyn amrywiaeth o gyfleoedd a brofiadol addysgol (Roberts,2010). Cytunwyd Blakemore a Frith (2005) gan ychwanegu bod lles yn stad gyflawn o iechyd cyfannol lle mae unigolyn yn teimlo eu bod yn ddiogel ac yn rhydd i fod eu hun o flaen eraill ac yn adnabod eu gwerth a'u hunaniaeth. Credaf fod addysgwyr gallu hybu hyn o oedran ifanc gan ddewis adnoddau yn ofalus er mwyn arddangos diddordeb mewn diddordebau a hoffterau'r plant i ennyn ei diddordeb er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac i ddatblygu eu gwybodaeth. Er bod Huber (2011) yn anghytuno gan eu bod yn credu bod gormod o bwyslais yn cael eu rhoi ar les ac iechyd meddwl plant yn rhy ifanc ac o ganlyniad mae afiechydon hyr-tymor yn cael eu hadnabod mewn pob ifanc yn fwy aml. Teimlaf er bod draft y Fframwaith newydd i Gymru (2015) ar gyfer 2022 yn cynnwys iechyd a lles fel un o'r maesydd dysgu bod angen rhoi amser i phlant i arbrofi efo amrywiaeth eang o brofiadau er mwyn dylanwadu eu hunaniaeth yn naturiol heb cael pwysau neu ffocws ar eu broses o feddwl er mwyn asesu eu iechyd meddwl a lles yn y cyfamser gan bod angen amser i plant i ddatblygu mewn i unigolion er mwyn bod yn hyderus.

Diwedd glo

06 January 2020 21:03


Gan fod yr astudiaeth hon wedi cael pwyslais penodol ar adfyfyrio ar ymarfer er mwyn rhoi cyfle i ddatblygu a gwella fel addysgwyr er mwyn sicrhau bod y plant yn dysgu yn ddilys er mwyn datblygu i'w photensial llawn, mae wedi rhoi sylfaen cadarnhaol tuag at ymarfer da o weithio. Yn ôl Reed a Canning (2010) heb adfyfyrio ar ymarfer nid oes modd gwella fel unigolyn ac felly mae'n cael llai o effaith llwyddiannus ar y canran o ddysgu sy'n digwydd o ganlyniad i'ch dulliau a strategaethau o addysgu. Yn ychwanegol i hyn mae adfyfyrio yn rhoi cyfle i hunanasesu eich gwendidau a chryfderau personol ac felly os rydych wedi adnabod y rhain gallwch ddefnyddio i'ch budd a gweithio er mwyn gwella eich gwendidau i fod yn addysgwyr gwell. Mae'r broses o ddysgu byth yn dod i ddiwedd ac felly mae adfyfyrio yn wythnosol yn sicrhau eich bod ar ben eich addysg personol er mwyn gallu rhoi'r gorau i'r plant rydych yn addysgu yn ychwanegol i gadw ar ben polisiau, gweithdrefnau a deddfwriaeth newydd sy'n cael eu cyflwyno i addysg sy'n golygu bod angen addasu ymarfer. Wrth barhau adfyfyrio'n wythnosol ar ymarfer wrth addysgu, dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu ar gyfer y plant i asesu'r ddysgu, canolbwyntio ar gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd wrth gynllunio a sicrhau bod tasgau ac adnoddau yn cael eu dewis yn seiliedig ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol byddai'n addysgwyr da.

Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu


06 January 2020 20:57

Sesiwn Gloi	• Sesiwn arddangos	-Cyfle i blant marcio gwaith eraill trwy roi sylwadau yn gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant.	• Argraffu meini prawf ac amcanion • Marcio gwaith ar y cyd.
------------------------	--	--	--

Wrth gael pawb at ei gilydd ar ddiwedd y sesiwn, mae'n cloi'r hyn mae'r plant wedi bod yn wneud gan roi cyfle i'r plant i adfyfrio a gwerthuso'r sesiwn. Gan fod cyfle gan y plant i arddangos eu gwaith o flaen eu cyfeillion mae'n cael effaith positif ar eu hunan-fry ac yn gyfle i'r plant ennyn sgiliau cymdeithasol megis deall pryd dim i ddweud barn os mae'n debygol o gael effaith negyddol ar deimladau eraill. Mae'n asesiad ar gyfer dysgu oherwydd bod y plant yn cyd-farcio gwaith eu cyfeillion ar lafar trwy rannu sylwadau ynghyn a gwendidau a chryfderau mewn ffordd sensitif sy'n dangos os mae'r plant wedi deall y meini prawf llwyddiant. Teimlaf fod hyn yn ffordd effeithiol o asesu ar gyfer dysgu oherwydd eu bod yn adlewyrchu ar sut rwyf wedi rhannu amcanion y sesiwn efo'r plant ar y dechrau yn ychwanegol i faint rydyn nhw wedi deall o'r cyd-destun ac felly mae'n asesu fy addysgu i a dysgu'r plant ar yr un pryd. Y wendidau yw os nad yw pob unigolyn yn cymryd rhan wrth rannu sylwadau yna ni allwch asesu eu ddealltwriaeth yr unigolun yna ac hefyd nid yw wastod yn bosib marcio gwaith wrth i'r sesiwn mynd ymlaen oherwydd bod angen sylw ar y phlant i sicrhau eu fod ar dasg. Er hyn mae'r cyfle o arddangos gwaith fel sesiwn gloi dal yn bosib heb cael enghraifft i arddangos cyntaf.



Defnyddwyr 'pinc perffaith' a 'gwyrdd gwella' er mwyn symboleiddio gwendidau a chryfderau ar gyfer pob darn o waith ysgrifenedig gan ddefnyddio uwch-oleuwyr. Mae uwch-oleuwyr yn sefyll allan i blant oherwydd eu bod yn lliwiau llachar ac felly mae'n denu sylw'r plant tuag at waith blaenorol sydd wedi cael eu marcio. Nid yw asesu ar gyfer dysgu yn digwydd os mae'r plant yn anymwybodol o ganlyniadau ei waith blaenorol ond nid yw brawddegau yn esbonio hyn ar ddiwedd y gwaith yn effeithiol gan eu bod yn anodd i'r plant deall yn ddigon cloi i sicrhau nid yw eu ffrindiau yn ymwybodol eu bod yn wyladwrus o eu gwaith gan fod rhan fwyaf o blant yn teimlo cywilydd dros boeni am ei waith. Wrth ddilyn cod marcio syml i blant dilyn ac sy'n sefyll allan mae'n lleihau'r baich marcio'r Athrawes ac yn ddull asesu ar gyfer dysgu effeithiol oherwydd bod y plant yn denu sylw i sut gallant nhw wella ac mae gweld 'pinc perffaith' yn datblygu eu hunan-fry. Credaf y rheswm dros ei effeithlonrwydd yw bod y plant yn cymryd sylw ac yn ymateb i'r sylwadau yn ôl y cod marcio megis os mae 'gwyrdd gwella' dros air mae'r unigolyn yn ailadrodd y gair wedi cael ei sillafu'n gywir cyn dechrau gwaith presennol ac felly nid yw'r unigolyn yn parhau efo'r un gwendidau. Yr unig wendid i hyn yw oherwydd bod y symboleiddio yn amlwg i bawb os mae unigolyn wedi derbyn llawer o wyrdd gwella ar ei waith yna mae cyd-ddisgyblion gallu adnabod hyn yn hawdd sydd gallu dechrau gwrthdaro rhwng cyfeillion. Er hyn gall cael effaith negyddol ar unigolyn heb fod unrhyw un arall wedi adnabod hyn oherwydd bod gweld llawer o wyrdd gwella wedi effeithio ar hunan-fry plentyn yn bersonol ac yna'n rhoi mewn hwyliau gwael sydd gallu cael effaith ar y darn nesaf o waith ysgrifenedig.



Mae dull ffonio ffrind yn effeithiol ar gyfer asesu ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen gan eu bod yn adlewyrchu'r hyn mae plant yn cofio neu wedi anghofio o fewn sesiwn ac yn rhoi cyfle i blant i arddangos yr hyn rydyn nhw wedi dysgu. Gan ei fod yn wneud yn weithgaredd hwyl nid oes cywilydd gan y plant i ddangos eraill nad ydyn nhw'n sicr o'r ateb cywir. Os mae unigolion sydd methu cyfrannu tuag at y cwestiynau yna mae'n wneud yn amlwg i'r Athrawes bod angen mwy o weithgareddau a thasgau ffocws ar gyfer yr unigolyn yna er mwyn sicrhau dealltwriaeth heb fod y plant arall yn ymwybodol gan eu bod yn weld fel gem. Er hyn mae rhai unigolion yn hoffi'r sylw bod arnyn nhw yn ddewis ffrind i ffonio ac yn arddangos nad ydyn nhw'n ddeall er bod nhw yn felly mae'n bwysig dod i adnabod y plant yn y dosbarth er mwyn adnabod hyn i sicrhau eu bod yn ddull effeithiol i asesu ar gyfer dysgu gyda'r plant penodol yna.

Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

06 January 2020 21:05

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	- Cyflwyno siapau 2D - Trafod priodweddau'r siapau. - Cwestiynau agored er mwyn asesu dealltwriaeth y plant o ddysgu blaenorol.	Cyd-drafod efo bartner siarad yr hyn cofiwyd am y siapau.	- Amrywiaeth o wrthrychau 2D. - Cardiau fflach o siapau 2D.
Addysgu a Dysgu Craidd	- Darganfod siapau 2D trwy helpa trysor. - Didoli'r siapau yn ôl grwpiau o'r un siâp. - Cyfri'r nifer o siapau sydd yno.	- Cydweithio mewn grŵp er mwyn darganfod y siapau gan drafod eu priodweddau. - Adnabod yr un fath o siapau 2D. - Arddangos eu sgiliau cyfri.	- Siapau 2D. - Cylchoedd grwpio.
Sesiwn Gloi	- Cwis i asesu cynnydd mewn dealltwriaeth o briodweddau siapau 2D i gymharu efo'r cyfnod agoriadol. - Wiwer gyfrinachol.	Cyflwyno atebion i amrywiaeth o chwestiynau ar bwrdd gwyn.	- Byrddau gwyn. - Peniau bwrdd.

Mae'r cynllun gwers yma yn enghraifft ystyrlon o gynnal gwers drawsgwricwlaidd. Dyma oedd fy ngwendid ar y cyfan yn ystod y cyfnod oeddem ni'n ymarfer dysgu er yn yr enghraifft hon wnes i gynllunio ar eu cyfer yn ddrylwy ac felly wnaeth gweithio fel sesiwn trawsgwricwlaidd effeithiol. Er mwyn sicrhau oedd cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn ddigon clir yn y cynllun er mwyn iddo gael dilyniant naturiol yn y sesiwn oedd wedi cael ei rannu i dair rhan. Dechreuodd y sesiwn yn dwyn cof y plant am gefndir a dysgu blaenorol ynghyn a siapiau a'u priodweddau gan oedd y sesiwn yn wers mathemateg. Y prif weithgaredd oedd helpa trysor lle oedd angen i'r plant defnyddio eu sgiliau llythrennedd er mwyn darllen y cyfarwyddiadau i ddarganfod y

siapiau. Ar ôl i'r plant ddarganfod yr holl siapiau oedd sgiliau rhifedd yn cael eu defnyddio er mwyn grwpio'r siapiau gan ddefnyddio eu sgiliau blaenorol felly oedd yr her yn ddibynnol ar eu grŵp gallu er mwyn bod yn addas i lefel eu datblygiad rhifedd. I gloi'r sesiwn oedd gemau rhyngweithiol ar y bwrdd gwyn le oeddwn yn cydweithio fel dosbarth i weld faint o'r siapiau a'u priodweddau oedd y plant wedi dysgu yn ystod y sesiwn. Wnaeth hyn hefyd gweithio'n dda ar gyfer asesu ar gyfer dysgu gan oedd ystod eang o sgiliau a gwybodaeth wedi cael eu cynnwys yn y sesiwn oedd pob unigolyn wedi mwynhau gan oedd pawb wedi cymryd rhan mewn o leiaf un rhan maent yn teimlo bod cryfder ganddyn nhw ynddo o fewn addysg. Gan fod y sesiwn gloi ar fwrdd rhyngweithiol maent yn cynnwys cymhwysedd digidol ac felly oedd cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn llwyddiannus yn ystod y sesiwn. Oedd ystod eang o brofiadau wedi cael eu darparu yn ystod y sesiwn ac felly o ganlyniad wnaeth pob unigolyn cael ymrwymiad yn ystod y sesiwn cyfan ac eisiau cymryd rhan felly oedd dysgu effeithiol trwy gydol y sesiwn. Er hyn teimlaf nid yw gwersi trawsgwricwlaidd pob tro yn naturiol i wneud ac felly os mae cyfleoedd yn cael eu gor-cynllunio er mwyn ceisio bod yn drawsgwricwlaidd ar bob adeg teimlaf fel ni fyddwn yn cael yr un effeithiolrwydd a llwyddiant ac felly bod angen cydbwysedd er mwyn sicrhau bod pawb yn datblygu ac yn dysgu'n llwyddiannus er mwyn cyrraedd eu potensial llawn.

'I cynllunio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen cyfan yn cywir fel bod dilyniant clir yn ddisgwyliadau'r plant o pob dosbarth.

Bydd hefyd angen defnyddio'r sgiliau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau dealltdwriaeth clir efo pob unigolyn.

Mae angen i pawb bod ar dasg yn wneud rhywbeth addysgiadol ar pob adeg felly mae angen cynllunio adnoddau ar gyfer yr ardaloedd fel bod y phlant gallu defnyddio'r gwybodaeth rydyn nhw wedi dysgu'n blaenorol yn y ddarpariaeth parhaus.

ND: Rydych wedi bod yn darllen stori y 'Tri Mochyn Bach' yn ddyddiol i'r plant. Mae gennych arddull hyfryd pan rydych yn darllen. Cofiwch bod modd darllen stori iddynt ar ddiwedd y dydd, a beth am ddefnyddio'r system bleidleisio gyda nhw yn y bore.

Bydd modd i chi arddangos sut ydych chi'n cynllunio tasgau ffocws ar gyfer pawb, a sut ydych chi am gyfoethogi'r ddarpariaeth gyda gweithgareddau. Cofiwch bod angen i'r gweithgareddau fod yn seiliedig ar y sgiliau maent wedi dysgu eisioes gyda chi, e.e siapiau 2d, ansoddeiriau. Beth am ychwanegu heriau i'r swyddfa bost ac un ardal arall?'

Er mwyn cynllunio'n effeithiol ac yn gywir ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i gael pwrpas a dilyniant clir yn gysylltiedig ar weithgareddau, sesiynau yn dilyn datblygiad y plant mae angen cynnwys cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. I wella fy nealltwriaeth ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd wnes i ddechrau trwy ymchwilio'r buddiannau o gynnwys wrth addysgu er mwyn deall y pwysigrwydd o gynllunio ar eu cyfer yn effeithiol. Yn ôl Appleby(2010) addysgu mewn ffordd drawsgwricwlaidd yn sicrhau bod anghenion emosiynol plant yn cael eu cwrdd wrth addysgu gan nid oes cysylltiad pendant efo pwnc sy'n bryder i'r unigolyn. Gan nid oedd perthynas y tymor wedi bod efo'r plant oeddwn yn addysgu teimlaf oedd hyn yn adrodd perthnasol a fy mod wedi elwa o'r ymchwil gan os mae ofn methiant gan blentyn yna nid oes diddordeb ganddyn nhw yn yr addysgu sy'n digwydd ac o ganlyniad yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad yr unigolyn. Sut oeddwn wedi mynd ati i gyflwyno cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i fy addysgu oedd rhoi gweithgareddau oedd yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a TGCh yn yr ardaloedd fel bod tasgau gan y plant i wneud ar ôl cwblhau'r dasg ffocws neu daflen gwaith oedd ganddyn nhw i wneud fel rhan graidd y sesiwn addysgu. Wrth wneud hyn oedd wedi gwneud rheolaeth y

dosbarth yn haws gan oedd pawb efo ymrwymiad yn beth oeddent nhw'n wneud oherwydd oeddwn yn awyddus i gwblhau tasg i symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf gan fod pob gweithgaredd yn dilyn diddordebau'r plant i gyd o ganlyniad i fod yn drawsgwricwlaidd.

'Trosglwyddo'r Cwricwlwm

Trosglwyddir y cwricwlwm mewn dwy ffordd- yn ol pwnc ac yn draws-gwricwlaidd.

Mae'r ddwy ffordd yn werthfawr ac yn cyfrannu tuag at addysg y plant.

Mae'r ffordd draws-gwricwlaidd yn golygu dysgu sawl pwnc drwy "thema" e.e fe fydd y pwnc 'Ein hunain' yn cynnwys gwaith gwyddonol, gwaith ysgrifennu (Cymraeg/Saesneg), archwilio Mathemategol, gwaith Crefft ac ati. Mae'r dull yma o ddysgu yn helpu'r athro/athrawes i osod sgiliau a ddysgwyd yn y pynciau eraill mewn trefn. Gellir ymestyn y sgiliau amrywiol ym er mwyn i'r plant weld eu werth'

Mae'r ysgol yn dangos eu bod yn cytuno efo pwysigrwydd addysgu yn drawsgwricwlaidd er eu bod yn adnabod nad yw wastad yn bosib o fewn pob gwers ac er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn, deall a datblygu yn y pynciau craidd bod y rhain dal i fod yn cael eu haddysgu ar wahân yn ychwanegol iddyn nhw gael eu hybu o fewn gweithgareddau sy'n digwydd o fewn y sesiwn. Cyn i deuluoedd cofrestri eu plant i'r ysgol mae ganddyn nhw gyfle i ddarllen y prospectws ac i ddod yn gyfarwydd efo werthoedd yr ysgol a beth sy'n bwysig iddyn nhw. O ganlyniad i hyn cael i gyflwyno i mi ar ddechrau fy mhrofiad o fewn yr ysgol mae'n atgyfnerthu'r ddarllen rwyf wedi bod yn wneud wrth ymchwilio fel rhan o'r gwaith yn y Brif ysgol o effeithlonrwydd addysgu'n drawsgwricwlaidd. Felly byddai'n sicrhau wrth gynllunio bod y gweithgareddau yn drawsgwricwlaidd pryd mae'n bosib fod yn sesiynau addysgu effeithiol.

Mae addysgu a dysgu da'n golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb

06 January 2020 21:05



I ennyn diddordeb y plant mae gwnes i chwarae gem o helfa trysor gan ddefnyddio siapiau 2D wnes i guddio wrth baratoi ar gyfer y sesiwn. Dewisais yr adnoddau a'r gweithgaredd yma er mwyn hwyluso'r broses o asesu beth oedd gwybodaeth bresennol y plant ar gyfer siapiau 2D. Wnaeth y gweithgaredd atgoffa'r plant o eu gwybodaeth oedd ganddyn nhw ynghyn a'r siapiau ac yn wneud y plant yn frwdfrydig i barhau efo dysgu mwy am eu priodweddau gan oedd y diddordeb yna a bod profiad yn gysylltiedig iddo. Dechreuais ddatblygu ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant ynghyn a phriodweddau siapiau 2D trwy ehangu'r helfa trysor fel bod y plant yn didoli'r siapiau yn ôl eu hochrau yn ffurf syml i sicrhau dealltwriaeth gan eu bod yn gyflwyniad trwy gael tri grŵp 'llai na 5', '5' a 'mwy na 5'. Y rheswm dros sicrhau bod dilyniant i'r wybodaeth flaenorol sydd gan y plant yw dangos iddynt fod nhw wedi dysgu amdano'r gwaith cyn heddiw ac felly mae'n gwaredi unrhyw bryderon ynghyn a dysgu rhywbeth newydd o'r dechrau, mae'n gwella hunan-fry'r plant oherwydd eu bod yn hyderus eu bod yn ymwybodol o'r gwaith yn barod ac mae'n ennyn diddordeb y plant ac felly maen nhw eisiau cael ymrwymiad yn y sesiwn.



Ar ddechrau pob darn o waith ysgrifenedig mae'r plant yn wneud neu daflen gwaith yn ystod sesiwn mae darn o ysgrifen ar ben y tudalen sy'n cael eu henwi'n BYDSI (Byddai yn dysgu sut i ...). Mae brawddeg fach syml sy'n ddealladwy i'r plant yn cael eu rhoi yma er mwyn cadw'r plant ar dasg. Yn ychwanegol i hyn mae'n sicrhau bod y plant i gyd yn ymwybodol o'r ddechrau'r sesiwn beth fyddwn nhw'n dysgu yn ystod y gweithgaredd oherwydd mae nod ac amcanion yn cael eu rhannu ganddyn nhw ond mae'r BYDSI yn atgyfnerthu'r hyn sydd wedi cael esbonio'n flaenorol i'r plant. Gan fod y wybodaeth yma'n cael eu rhannu ac atgoffa i'r plant yn ystod y sesiwn mae'n arddangos bod y tasgau gosodwyd ac yr adnoddau dewiswyd yn adeiladu ar wybodaeth neu brofiadau'r plant ac i unrhyw un sy'n asesu'r addysgu mae dilyniant clir i weld efo pwrpas penodol yn gysylltiedig efo pob darn o waith sydd yn amlwg yn cael effaith positif ar ddatblygiad y plant. Ar gyfer pob tasg mae sylwadau ynghyn a chymorth oedolyn, matiau cymorth, adnoddau defnyddwyr, sut oedd y plentyn wedi mynd ati i gwblhau'r dasg megis yn annibynnol, mewn pâr neu wrth gydweithio mewn grŵp ac os oeddwn wedi deall trwy god marcio mae'r plant yn ddeall ac sy'n cael eu harddangos o fewn yr ardal marcio ac o flaen eu llyfrau er mwyn sicrhau cysondeb ac i roi pwrpas i'r baich marcio. Sicrhau bod y plant yn ymwybodol o pam maen nhw'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a phwrpas y wers ac yn weld dilyniant clir y neu ddatblygiad sy'n cadw eu diddordeb o fewn addysg. Yr unig wendid yw os nid yw plant yn cymryd unrhyw sylw o'r BYDSI ar ben y tudalen yna mae'n ychwanegu i faich gwaith yr Athrawes heb fuddio datblygiad neu ddealltwriaeth yr unigolyn, er hyn mae'n dal yna er mwyn i unrhywun sydd am weld proses o addysgu sy'n digwydd o fewn y dosbarth yn glir efo ond cipolwg ar y llyfrau ac yna maent yn gweithio'n effeithiol i arddangos bod dilyniant clir a phwrpas pendant er mwyn cael effaith positif ar ddatblygiad y plant.

Amser	Gweithgareddau/Meth odoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a
-------	--	--	---

	dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	cartref)	Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadauâ dysgu blaenorol)	Cyflwyno'r gair arbrawf i'r phlant ac gofyn iddyn nhw trafod beth yw arbrawf. Trafod beth oeddwn nhw'n cofio amdano priodweddau'r defnyddiau.	Trafod efo partneriaed trafod syniadau amdano'r gair. Dwyn i gof am yr ansoddeiriau maent yn cofio ac ddefnyddio hyn fel rhesymau dros y rhagfynegiad.	Amrywiaeth eang o ddefnyddiau.
Addysgu a Dysgu Craidd	Gwneud eu rhagfynegiad. Trafod beth bydd rhaid ystyried er mwyn sicrhau prawf teg.	Cofnodi beth rydyn nhw'n feddwl bydd yn ddigwydd yn ystod yr arbrawf. Meddwl am beth bydd angen cadw yr un peth a beth byddwn yn newid.	Taflennu gwaith.
Sesiwn Gloi	Gwneud yr arbrawf. Trafod y canlyniadau.	Cymryd rhan mewn yr arbrawf ac canolbwyntio er mwyn cofio'r canlyniadau er mwyn gallu cofnodi.	Asesiad risg Sychwr gwallt

Penderfynais ddefnyddio amrywiaeth eang o ddeunyddiau naturiol er mwyn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol y plant. Wnaeth y gweithgareddau oedd yn adeiladu tuag at y sesiwn yma wedi dysgu'r plant priodweddau amdano amrywiaeth eang o ddeunyddiau a wnaethon ni cyd trafod gwendidau a chryfderau ar sail adeiladu tŷ gan eu defnyddio. Pwrpas yr arbrawf yma oedd rhagweld os oedd y deunyddiau yn ddigon cryf i wrthsefyll y gwynt gan ail-greu anadl y blaidd o'r stori 3 mochyn bach efo sychwr gwallt. Gan oedd thema'r cyfnod yn '3 mochyn bach' oedd y profiad o'r arbrawf yn adeiladu ar gof y plant o'r stori ar negeseuon yn y stori yn ychwanegol i'r wybodaeth dysgwyd ynghyn a'r priodweddau. Wnaeth hyn ysgogi'r ddysgu digwyddodd yn ystod y sesiwn gan oedd cyfle gan y plant i ddatblygu'n holistaidd oherwydd eu bod yn sesiwn trawcwricwlaidd hefyd. Gan gynnwys defnyddiau naturiol mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r plant cael profiadau iawn sy'n ehangu eu gwybodaeth a diddordeb yn y deunyddiau a bydd atgofion o'r cyfleoedd yn atgoffa'r plant o'r priodweddau wnaethon nhw ddysgu yn ystod y sesiwn sy'n gwella'r cyfle bod y plant wedi dysgu'r wybodaeth am oes. Yr unig wendid yw bod amrywiaeth eang o adnoddau naturiol dim pob tro yn addas i ddefnyddio ar gyfer sesiwn ac felly nid yw wastad yn synhwyrol i gynnwys os nad yw'n cryfhau'r profiad o ddysgu. Gallaf wedi ehangu'r gweithgaredd ym mhellach trwy ychwanegu gweithgaredd fel dilyniant i'r arbrawf gan ddefnyddio'r hyn ddysgwyd yn ystod y sesiwn er mwyn dewis deunyddiau i ddefnyddio ar gyfer creu tŷ i'r 3 mochyn bach a bod cyfle gan y plant i gynllunio ar gyfer y dasg gan gyfiawnhau'r rheswm dros eu dewisiadau er mwyn arddangos yr hyn addysgwyd a chynnwys priodweddau rydyn nhw wedi dysgu ynghyn a'r deunyddiau. Yna bydd y plant wedi gallu rhagdybio beth fydd y canlyniadau os oeddwn am roi'r tŷ tu allan am gyfnod. Bydd yna gyfrifoldeb gan y plant i ymweld â'u thŷ nhw'n ddyddiol er mwyn cofnodi unrhyw newidiadau i edrychiad y tŷ. Bydd hyn fel arbrawf ychwanegol ac yn rhoi cyfrifoldeb i'r plant a hefyd yn ymddwyn fel profiad iawn o'r stori gyfan.

Llenyddiaeth

06 January 2020 21:09

Llywodraeth cymru (2019). 'Fy ysgol leol' https://llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw?_ga=2.120064459.252039639.1577538101-1998750538.1577538101 [Mynediad: 25 Tachwedd 2019].

Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (2019). 'Croeso' <https://www.swwcte.ac.uk/en/about> [Mynediad: 26 Tachwedd 2019].

Sutton Trust (2019). 'Policy' <https://www.suttontrust.com/policy/> [Mynediad: 26 Tachwedd 2019].

Action Research (2019) '**A Living Educational Theory (Living Theory) Approach to Research and Life**' <https://actionresearch.net/> [Mynediad: 27 Tachwedd 2019].

Adroddiad Lles a Iechyd (2019) 'Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol 2017/18 ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion' <http://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/SHRN-HBSC-NR-Cy-31.05.2019.pdf> [Mynediad: 28 Tachwedd 2019].

Appleby, K. (2010) *Reflective thinking: Reflective practice*. London: Sage.

Arievitch, I. a Stetsenko, A. (2002) *Teaching, learning and development: a post-Vygotskian perspective*. London: Sage.

Barnes, J. (2018) *Applying Cross-curricular approaches creatively (Learning to teach in the Primary school series)*. Routledge: Oxon.

Blakemore, S.J., a Frith, U. (2005) *The Learning Brain*. Wiley: Chichester.

Blythe, G.S. (2017) *the Well Balance Child*. Exeter: Short Run Press Ltd.

Bowman, B.T. a Donovan, M.S. a Burns, M.S. (2001) *Eager to learn*. National Academy Press: Washington, USA.

Clarke, S. a Dickinson, P. a Westbrook, J. (2ed) (2010) *Becoming an English Teacher*. London: Sage.

Coe, R. et.al. (2014). "What makes great teaching?" *Review of the underpinning research*. Project Report, Sutton Trust: London

Contesting Early Childhood Series: Series Editors: Peter Moss. a Gunilla Dahlberg. <https://www.routledge.com/series/SE0623> [Mynediad: 29 Tachwedd 2019].

DavyDov, V.V. (1996). *The theory of developmental teaching*. INTOR: Moscow.

Department for Education (2020) 'Statutory Framework for the early years foundation phase'. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/596629/EYFS_STATUTORY_FRAMEWORK_2017.pdf [Mynediad: 1 Ionawr 2020].

Dolya, G. (2010). *Vygotsky in action in the early years*. Routledge: London.

- Donaldson,G (2015) 'Successful futures' https://dera.ioe.ac.uk/22165/2/150225-successful-futures-en_Redacted.pdf [Mynediad: 27 Tachwedd 2019].
- Estyn (2019) 'Cefnogi lles disgyblion' <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-lles-disgyblion> [Mynediad: 25 Tachwedd 2019].
- Hattie,J. (2009). *Visible Learning*. Routledge:London.
- Huber,M. (2011) 'How should we define health?' <https://www.bmj.com/content/343/bmj.d4163> [Mynediad: 27 Tachwedd 2019].
- HWB (2019) 'Cwricwlwm i Cymru 2008'. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008> [Mynediad: 25 Tachwedd 2019].
- Impact Wales (2019) 'Pentrehafod school Swansea' <https://www.impact.wales/case-studies/pentrehafod-school-swansea/> [Mynediad: 26 Tachwedd 2019].
- Ko,J. a Sammons,P. (2013) *Effective Teaching: A Review of Research and Evidence*. CfBT Education Trust:Reading.
- Larson,J. a Marsh,J. (2ed) (2015) *Making literacy real*. London:Sage.
- Llywodraeth Cymru. (2019) 'Deddf Llesiant Cenedlaethol Cymru 2015'. <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/part/1/enacted/welsh> [Mynediad: 28 Tachwedd 2019].
- Loxley,P. a Dawes,L. a Nicholls,L. a Dore,B. (2ed) (2014) *Teaching Primary Science*. London:Routledge.
- Mckinsey&Co. (2019) 'How the World's best-performing school systems come out on top 2007' https://www.mckinsey.com/~media/McKinsey/Industries/Social%20Sector/Our%20Insights/How%20the%20worlds%20best%20performing%20school%20systems%20come%20out%20on%20top/How_the_world_s_best-performing_school_systems_come_out_on_top.ashx [Mynediad: 30 Tachwedd 2019].
- Mewn G.Wells & G. Claxton (Eds).(*Learning in the life of the 21st century: Sociocultural perspectives on the future of education*). Malden,MA:Blackwell.
- Moyles,J. (2010) *thinking about play*. Glasgow:Open University Press.
- Reed,M. a Canning,N. (2010) *Reflective practice in the early years*. London:Sage.
- Roberts,R. (2010). *Wellbeing from Birth*. London:Sage.
- Robinson,M. (2008). *Child Development from birth to eight*. Poland:Open University Press.

Saxton,M. (2012) *Child Language*. London:Sage.

Sir Powys (2019) 'Trosolwg ar asesiad lles' <https://cy.powys.gov.uk/article/6998/Arolwg-ar-asesiad-lles> [Mynediad: 28 Tachwedd 2019].

Siraj,I. a Kingston,D. (2014). *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Adroddiad terfynol*. Caerdydd:Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Siraj-Blatchford,I., a Taggart,B. a Sammons,P. a Melhuish,E. a Sylva,K. (2013) *Effective teachers in Primary schools:Key research on pedagogy and children's learning*. Trentham Books:Stoke on Trent.

Sternberg,R. a Krauss,G. (eds) (2014) *Handbook of research on entrepreneurship and creativity*. Edward Elgar Publishing:Cheltenham.

Taylor,C., a Rhys,M. a Waldron,S. a Davies,R. a Power,S. a Maynard,T. a Moore,L. a Blackaby,D. a Plewis,I. (2015). *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol Ymchwil gymdeuthasol*. Rhif 25/2015. Caerdydd:Llywodraeth Cymru.
<http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150514-foundation-phase-final-cy.pdf>
[Mynediad: 29 Tachwedd 2019].

Taylor,H. Harris,A. (eds) (2014) *Learning and Teaching Mathematics 0-8*. London:Sage.

Vecchi,V. (2010) *Art and Creativity in Reggio Emilia*. London:Routledge.